

## Amodau a Thelerau Archebu

Mae'r amodau a thelerau hyn yn amlinellu sut y byddwn ni'n darparu manau cwrdd a gwasanaethau cysylltiedig i chi. Darllenwch yr amodau a thelerau'n ofalus cyn cadw unrhyw fannau cwrdd neu wasanaethau cysylltiedig gyda ni.

### 1. Diffiniadau

Yn y telerau gwerthu hyn, bydd gan y termau canlynol yr ystyron canlynol:

- Mae "gwasanaethau ategol" yn golygu bwyd, diod a/neu gyfarpar swyddfa y gallwn ni eu cynnig.
- Mae "archebu" yn golygu cadw man(nau) cwrdd ac unrhyw wasanaethau atodol eraill rydych chi wedi gofyn amdanynt yn ystod y broses archebu ac rydym ni wedi'u derbyn wedi hynny yn unol â'r amodau a thelerau hyn.
- Ystyr "Dyddiad Blaendal yr Archeb" yw:
  - Y diwrnod mae blaendal o 10% yn ddyledus mewn perthynas â'ch archeb.
- Ystyr "Contract" yw'r cytundeb rhyngon ni a chi am Archeb, sy'n cynnwys y telerau gwerthu hyn ynghyd â gwybodaeth a ddarperir gennym ni yn ystod y broses archebu sy'n cael ei chadarnhau wedi hynny gennym ni drwy e-bost.
- Ystyr "Cynadleddwr/Cynadleddwyr" yw pob unigolyn sy'n cwrdd yn ein Hystafell(oedd) Cwrdd mewn perthynas ag Archeb gyda chi.
- Ystyr "Digwyddiad" neu "Archeb Digwyddiad" yw Digwyddiad i'w gynnal sy'n destun yr Archeb.
- Ystyr "Mannau cwrdd" yw'r ystafell neu'r ystafelloedd rydych chi'n eu cadw i'w defnyddio gan eich Cynadleddwyr.
- Ystyr "Cynrychiolydd" yw'r person awdurdodedig o'r sefydliad, cwmni neu'r corff arall sy'n gyfrifol am Archebu.
- Ystyr "chi" yw'r person, sefydliad, cwmni neu gorff arall sy'n gyfrifol am Archebu.
- Ystyr "ni" yw "Prifysgol Abertawe, Campws Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP"

### 2. Gweithdrefn Archebu

2.1 I gadw ystafell, cysylltwch â'n tîm yn [events@abertawe.ac.uk](mailto:events@abertawe.ac.uk) a rhoi unrhyw wybodaeth pan fydd gofyn amdani.

2.2. Wrth gadw ystafell, rhaid gwirio bod y manylion yn gyflawn ac yn gywir cyn cadarnhau'r hyn rydych chi'n ei gadw. Ni fyddwn yn atebol am unrhyw oedi na diffyg perfformiad os byddwch chi'n darparu gwybodaeth anghywir neu anghyflawn i ni. Wrth archebu, rydych chi'n gwarantu bod y gallu cyfreithiol gennych chi i ymrwymo i Contract Archebu gyda ni.

2.3 Caiff y Contract rhyngoch chi a ni ei greu pan fyddwn yn cyhoeddi derbyniad ysgrifenedig o'ch Archeb ac nid cyn hynny (gellir darparu hyn drwy e-bost).

2.4 Caiff y man cwrdd mwyaf priodol ei ddarparu ar sail nifer y cynadleddwyr y cadwyd lle ac y talwyd ar eu cyfer (efallai y byddwn ni'n gwneud y dyraniad hwn unrhyw bryd cyn dechrau'r Archeb). Rydym ni'n cadw'r hawl i newid y man cwrdd a neilltuwyd i chi am un cyfatebol addas cyn dechrau eich archeb. Byddwn yn ymdrechu i roi gwybod i chi o flaen llaw am unrhyw newid o'r fath.

2.5 Rydym ni'n cadw'r hawl ar sail ein disgresiwn pur ni i wrthod derbyn archeb. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddwn yn eich cynghori drwy e-bost cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac yn ad-dalu unrhyw swm a dalwyd gennyhych yn llawn.

2.6 Rydym ni'n cadw'r hawl i ganslo archeb a byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosib ac yn ymdrechu i aildrefnu ar gyfer dyddiad arall.

### 3. Prisiau

3.1 Caiff pris yr holl fannau cwrdd a gwasanaethau atodol eu rhoi i chi ar adeg archebu, ac eithrio achosion lle mae gwall amlwg. Er ein bod ni'n ceisio sicrhau bod yr wybodaeth am brisoedd a gwybodaeth arall rydym ni'n ei darparu yn gywir bob amser, weithiau mae camgymeriadau'n bosib. Os byddwn ni'n darganfod gwall mewn pris neu natur y gwasanaethau rydych chi wedi'u harchebu, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosib, ac yn rhoi'r opsiwn i chi ailgadarnhau eich archeb ar y pris/manyleb gywir neu ei chanslo. Os caiff yr archeb ei chanslo, byddwn yn ad-dalu unrhyw symiau rydych chi wedi'u talu'n llawn.

3.2 Oni bai ein bod ni'n cytuno fel arall yn ysgrifenedig, byddwch chi'n parhau i fod yn atebol am yr holl gostau yn y Contract Archebu hyd yn oed os byddwch chi'n ein hysbysu am leihad o ran niferoedd neu'r gwasanaethau atodol angenrheidiol, naill ai cyn neu ar ôl y digwyddiad, sy'n destun eich archeb.

3.3 Mae angen blaendal gwerth 10% o'r archeb nad yw'n ad-daliadwy i gadarnhau eich archeb. Bydd angen talu hwn erbyn Dyddiad Blaendal yr Archeb, y byddwn ni'n cadarnhau i chi ar yr adeg archebu.

3.4 Mae pob pris yn cynnwys TAW. Ni fydd TAW yn berthnasol i wasanaethau safonol ar yr amod bod eithriad TAW wedi'i gwblhau. Bydd TAW yn berthnasol i wasanaethau uwch, megis ciniawau gala.

3.5 Rydym ni'n cadw'r hawl i adolygu prisiau o bryd i'w gilydd. Byddwch yn talu'r pris a roddwyd ar adeg archebu. Bydd angen contract archebu wedi'i addasu ar gyfer unrhyw nwyddau neu wasanaethau y gofynnir amdanynt ar ôl yr adeg hon, neu os bydd cynnydd yn nifer y cynadleddwyr.

### 4. Tâl

4.1 Rydym ni'n derbyn tâl drwy gerdyn debyd/credyd (VISA a Mastercard). Rhaid i'r dyddiad dod i ben ar eich cerdyn debyd/credyd fod yn hwyrach na diwedd eich Archeb.

4.2 Bydd yn rhaid i chi ddarparu manylion cerdyn debyd neu credyd i gadw ystafell. Rydym ni'n derbyn Visa a Mastercard.

4.3 Rydym ni'n cadw'r hawl i ganslo Archeb os na wneir taliad erbyn y Dyddiad Blaendal Archeb perthnasol.

## 5. Cansladau a Newidiadau Cyffredinol

5.1 Os byddwch chi am newid neu ganslo archeb, rhaid e-bostio [events@abertawe.ac.uk](mailto:events@abertawe.ac.uk) lle byddwch chi'n gallu newid neu ganslo archeb sydd ar ddod, yn amodol ar y canlynol:

5.2 Gallwch ganslo archeb unrhyw bryd tan 90 o ddiwrnodau cyn dechrau'r archeb ac ni fyddwn yn codi tâl arnoch chi am yr archeb. Ni fydd modd ad-dalu'r blaendal.

5.3 Gallwch leihau'r niferoedd sy'n dod yn ôl yr archeb hyd at 15 o ddiwrnodau cyn yr archeb ond efallai y bydd cost yn sgîl hynny.

5.4 O fewn 14 o ddiwrnodau cyn dechrau'r archeb, nid oes modd cynnig ad-daliad am ganslo a bydd yn rhaid talu 100% o'r costau perthnasol yn llawn.

5.5 Os byddwch chi'n canslo archeb wedi'r Dyddiad Talu am yr Archeb neu'n methu dod i digwyddiad a gadwyd, codir tâl llawn arnoch am yr archeb. Byddwn yn darparu anfoneb i chi o'r ffi ganslo o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl derbyn hysbysiad canslo. Rhaid i chi dalu'r anfoneb derfynol o fewn 28 o ddiwrnodau o'i dyddiad.

5.6 Rhaid cael ein cymeradwyaeth o flaen llaw i gynyddu nifer y cynadleddwyr ar archeb. Os byddwn ni'n cytuno i gynyddu nifer y cynadleddwyr, byddwn yn anfon cadarnhad i chi dros e-bost ac ystyrir bod eich archeb wedi'i newid pan anfonir e-bost o'r fath. Bydd yn rhaid i chi wneud unrhyw daliad ychwanegol ar y Dyddiad Talu am Archeb.

5.7 Os byddwch chi am newid dyddiad y digwyddiad, byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i fodloni'r dyddiad newydd a throsglwyddo'r blaendal i'r dyddiad newydd. Efallai y bydd costau ychwanegol yn berthnasol ar y gyfradd ddyddiol uwch na ddyfynnwyd yn wreiddiol.

5.8 Gallwch ychwanegu gwasanaethau atodol i'r archeb hyd at 14 o ddiwrnodau cyn dechrau'r archeb, yn amodol ar dalu'r ffi berthnasol. Mae'r holl drefniadau archebu'n cael eu cloi 14 o ddiwrnodau cyn dechrau'r digwyddiad. Rhaid archebu unrhyw wasanaethau atodol ychwanegol a allai fod eu hangen arnoch yn lleoliad eich Ystafell Gwrdd ar ddiwrnod yr Archeb.

5.9 Efallai y byddwn ni'n canslo archeb ar unrhyw adeg ac yn syth drwy roi rhybudd ysgrifenedig i chi os:

- (i) na fyddwch chi'n ein talu ni pan y dylech chi;
- (ii) os byddwch chi'n torri'r Contract mewn ffordd faterol arall;
- (iii) nid yw eich man cyfarfod ar gael am ba reswm bynnag; neu
- (iv) os byddwn ni'n destun digwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth sy'n ei gwneud hi'n ofynnol canslo.
- (v) Unrhyw siaradwr neu gynadleddwr sy'n perthyn i, neu'n cynrychioli, unrhyw sefydliad ar restr waharddedig y Swyddfa Gartref;
- (vi) Os na fyddwch chi'n gallu talu neu'n methdal, yn destun gweinyddiaeth, yn ymrwymo i gytundeb gwirfoddol gyda'n credydwyr, neu'n destun unrhyw

ddigwyddiad neu gamau cyfatebol ac;

(vii) Os bydd yn rhaid i ni ganslo archeb oherwydd digwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth neu nad yw eich man cwrdd dewisol ar gael, bydd yn cysylltu â chi'n brydlon i roi gwybodaeth i chi.

5.9.1. Os ydych chi wedi talu o flaen llawn, byddwn yn ystyried a ddylid eich adalu ar sail disgresiwn.

5.9.2 Os nad ydych chi wedi talu eto, ni fyddwn yn codi tâl arnoch chi am unrhyw beth ac ni fyddwch yn gorfod ein talu ni.

## 6. Aildrefnu/cansladau oherwydd cyfyngiadau Llywodraeth y DU:

6.1 Mae'r ddwy blaid yn cydnabod yr argyfwng Covid-19 parhaus ac yn derbyn eu rhwymedigaeth i gydymffurfio â chanllawiau swyddogol gan Lywodraethu Cymru a'r DU.

6.2 Rydych chi'n cydnabod efallai y bydd COVID-19 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gymryd un neu fwy o'r mesurau canlynol er diogelwch ein staff a chynadledwyr sy'n dod i'r digwyddiad:

- (i) Gosod uchafswm o ran nifer y cynadledwyr yn y digwyddiad.
- (ii) Cyfyngu ar fwyd neu ddiod sydd ar gael, ynghyd â hyblygrwydd a darpariaeth bwydlenni.
- (iii) Gosod gofyniadau penodol mewn perthynas â chyfarpar diogelu personol, megis gwisgo mygydau;
- (iv) Cyfyngu ar nifer yr arosiadau dros nos os yw'n berthnasol; a/neu
- (v) Gyfyngu ar adloniant/arddangosfeydd arfaethedig ar gyfer eich digwyddiad;
- (vi) Defnyddio ystafelloedd cwrdd a/neu fynedfeydd ac allanfeydd amgen nad ydynt wedi'u cynnwys yn y contract archebu.

6.3 Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwn ni'n ystyried adolygu eich ffi archebu. Os bydd rhwymedigaeth arnom oherwydd cyfyngiadau'r Llywodraeth a/neu i gau ein lleoliad, byddwn yn ymdrechu i gynnig dyddiad amgen i chi ar gyfer y digwyddiad, ond os nad oes modd cytuno ar hyn, byddwn yn ystyried y canslwyd y digwyddiad ac y caiff eich blaendal ei ddychwelyd yn llawn heb yr angen am daliadau pellach.

6.4 Os nad ydych chi'n gallu cydymffurfio â niferoedd y cynadledwyr y cytunwyd arnynt oherwydd cansladau gan gynadledwyr neu gyfyngiadau teithio, byddwn yn cynnig naill ai ffi ostyngedig gymesur i chi am y digwyddiad neu'n cytuno i ganslo'r archeb a dychwelyd eich blaendal.

6.5 Os bydd niferoedd y cynadledwyr yn mynd dan 70% y nifer a gontractiwyd (gyda hysbysiad ysgrifenedig gan y trefnydd o leiaf 14 o ddiwrnodau gwaith cyn y digwyddiad) rydym ni'n cadw'r hawl i ganslo'r digwyddiad. Costau perthnasol.

6.6 Mae cansladau yn ystod 2022 a 2023 yn debygol o fod am un o'r rhesymau canlynol:

- (i) Y DU wedi'i chloi'n gyfan gwbl, mangreoedd ar gau.
- (ii) Cyfnod clo rhanbarthol, mangreoedd ar gau.
- (iii) Methu cwrdd â nifer y cynadledwyr.

- (iv) Nifer gorfodol o gynadleddwyr.
- (v) Hyder cleient/dewis cleient (oherwydd pryderon am Covid-19)
- (vi) Ni chaiff cansladau nac ad-daliadau ar gyfer archebion a wneir mwy na 90 niwrnod cyn dyddiad dechrau'r digwyddiad eu hystyried.

## 7. Ein Cyfrifoldebau:

7.1 Bydd y darpariaethau canlynol yn berthnasol i ni oni bai ein bod ni'n cytuno fel arall yn ysgrifenedig i chi:

- (i) Caiff manau cwrdd eu gosod fel a nodwyd yn y Contract Archebu.
- (ii) Mae gan fannau cwrdd bwyntiau data ac uwchdaflunydd. Rydym ni'n darparu offer clyweledol ar y safle sydd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener 9am-4pm.
- (iii) Darperir mynediad i'r rhyngwyd drwy rwydwaith diwifr o'r rhan fwyaf o ddyfeisiau diwifr drwy Eudrom neu Wifi ymwelwyr â'r Brifysgol.
- (iv) Darperir llety, boed yn safonol neu ensuite, ar ffurf ystafelloedd gwely ac astudio sengl myfyrwyr. Mae'n bosib y gellir darparu ystafelloedd pâr, gan ddibynnu ar argaeledd.
- (v) Caiff ystafelloedd gwely eu dyrannu gennym ni. Darperir ystafelloedd yn unol â'r enwau a ddarparwyd ar y rhestr o ystafelloedd. Gellir newid enwau hyd at 24 awr cyn y digwyddiad drwy e-bostio [events@abertawe.ac.uk](mailto:events@abertawe.ac.uk).
- (vi) Ni fydd ystafelloedd gwely ar gael cyn 14.00 ar ddiwrnod cyntaf digwyddiad preswyl a rhaid gadael erbyn 10.00 ar y diwrnod olaf. Bydd ffi gadael ystafell yn hwyr yn berthnasol i ystafelloedd mae deiliaid yn eu gadael ar ôl yr amser gadael dynodedig.
- (vii) Darperir yr holl brydau yn y lleoliad arlwygo penodol neu'r ardal arlwygo a gadwyd. Gellir darparu arlwygaeth ar gyfer y rhan fwyaf o ofynion deietegol ond ni ellir gwarantu hyn. Ni ellir bwyta nac yfed bwyd a diod nad ydynt wedi'u darparu gennym ni ar y fangre heb gytundeb o flaen llaw. Rhaid i gynadleddwyr ddod i fwyta o fewn pymtheng munud o'r amser dechrau y cytunwyd arno.
- (viii) Mae Campws y Brifysgol yn cydymffurfio â holl ganllawiau a chyfreithiau Llywodraethau Cymru a'r DU.
- (ix) Diogeledd 24 awr ar y safle gyda swyddogion cymorth cyntaf cymwys a swyddogion diogelwch tân.

## 8. Eich Cyfrifoldebau

8.1 Naw deg diwrnod cyn y digwyddiad, byddwch yn ymrwymo i'r canlynol:

8.1.1 Cael yswiriant addas gyda chwmni yswiriant ag enw da a fydd yn darparu lefel ddigonol o yswiriant i chi mewn perthynas â'r holl risgiau sy'n berthnasol i chi mewn perthynas â'r digwyddiad, gan gynnwys:

- (i) Yswiriant atebolrwydd cyflogwyr; ac
- (ii) yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gwerth o leiaf £5 miliwn,
- (iii) A darparu tystiolaeth o'r yswiriant hwnnw ar gais.

8.1.2 Anfon copi o asesiad Risg y Digwyddiad, yswiriant a phroffion PAT diweddar ar gyfer cyfarpar trydanol sy'n cael ei gludo i'r fangre.

8.1.3 Ein hysbysu ni am gyfranogiad neu bresenoldeb sefydliadau'r wasg, teledu, ffilm, radio a/neu'r cyfryngau yn y digwyddiad, lle bydd angen ein caniatâd ysgrifenedig



penodol arnoch ac mae'n bosib bydd costau ychwanegol yn berthnasol.

8.1.4 Os ydych chi'n defnyddio arlwywyr allanol, rhaid darparu eu tystysgrifau hylendid ac iechyd a diogelwch.

8.2 O leiaf 14 o ddiwrnodau cyn dyddiad y digwyddiad, rhaid i chi ein darparu â'r canlynol:

- (i) Rhestr o ddeiliaid ystafelloedd gwely – Enw cyntaf a chyfenw, dyddiadau cyrraedd a gadael ac unrhyw ofynion llety arbennig.
- (ii) Rhestr o'r niferoedd terfynol – Nifer y cynadleddwyr mae angen prydau arnynt, ynghyd ag unrhyw ofynion deietegol arbennig.
- (iii) Copi o'r rhaglen – Gan ddangos ystafelloedd cwrdd a ddefnyddir gyda chynlluniau'r ystafelloedd, siaradwyr ac amseroedd prydau bwyd.
- (iv) Manylion cyswllt cynrychiolydd – Enw llawn a manylion cyswllt symudol y trefnydd a fydd ar y safle ac y gellir cysylltu ag ef drwy gydol eich digwyddiad.
- (v) Derbyn os byddwch chi'n anfon eich manylion terfynol llai nag 14 o ddiwrnodau cyn dechrau'r digwyddiad y bydd y Brifysgol yn defnyddio eich niferoedd sylfaenol a gontractiwyd mewn perthynas ag ystafelloedd cwrdd, amseroedd prydau bwyd a bwydlenni.
- (vi) Unrhyw geisiadau am fynediad i bobl bwysig iawn/pobl anabl

8.3 Ar ddiwrnod eich digwyddiad, byddwch chi'n:

8.3.1 Sicrhau bod eich cynrychiolydd ar gyfer y digwyddiad (y "Cynrychiolydd") yn breswylydd (neu yn achos digwyddiadau nad ydynt yn rhai preswyl, yn bresennol) yn y man(nau) cwrdd a ddarperir gennym ni drwy gydol y digwyddiad.

8.4.1 Peidio ag ymgymryd ag unrhyw weithgaredd a allai beryglu enw da Prifysgol Abertawe;

8.4.2 A chydymffurfio â'r canlynol:

- (i) Telerau ein trwydded adloniant cyhoeddus.
- (ii) Yr amodau gweithredol a amlinellwyd yng Nghontract yr Archeb;
- (iii) Côt Ymarfer y Brifysgol mewn perthynas â rhyddid barn;
- (iv) Yr holl gyfarwyddiadau a roddir gan ein staff yn y digwyddiad;
- (v) Trin (a sicrhau bod cynadleddwyr yn trin) y fangre a/neu'r cyfleusterau a ddarperir gennym ni â gofal a pharch er preifatrwydd ein preswylwyr, gan beidio â cheisio cael mynediad at ardaloedd anawdurdodedig, neu unrhyw ardaloedd eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghontract yr archeb;
- (vi) Sicrhau bod Arferion Cadw Tŷ y Brifysgol a gweithdrefnau diogelwch tân yn cael eu cyfathrebu i'r holl Gynadleddwyr a Siaradwyr ac y cydymffurfir â nhw.
- (vii) Anfon newidiadau munud olaf ar y rhaglen i'r Rheolwr Digwyddiadau yn [events@abertawe.ac.uk](mailto:events@abertawe.ac.uk) a;
- (viii) Sicrhau y cydymffurfir ag asesiadau risg ar ddiwrnod y digwyddiad gan yr holl gynadleddwyr.

8.5 Pan fydd y digwyddiad ar ben:

8.5.1 Ewch â'ch holl eiddo o'r fangre a gadewch y fangre yn yr un cyflwr a ddarparwyd i chi.

8.5.2 Mae comisiwn ar gael ar gais ar gyfer ystafelloedd cwrdd a gadwyd o flaen llaw yn unig, hyd at gyfradd o 8%.

8.6 At hynny, rydych chi'n cydnabod ac yn cytuno i'r canlynol:

(a) Byddwch yn gwbl atebol am ddifrod i unrhyw un o'n manau cwrdd neu'n heiddo (neu eiddo ein cydweithwyr) a achoswyd gan eich cynadleddwyr.

(b) Byddwch yn gofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig o flaen llaw gennym ni os byddwch chi neu'ch cynadleddwyr am atodi unrhyw beth ar waliau'r man cwrdd, neu ei addurno - neu unrhyw ran ohono - mewn unrhyw ffordd.

(c) Ni all eich cynadleddwyr ddefnyddio'r man(nau) cwrdd mewn unrhyw ffordd sy'n achosi niwsans neu aflonyddwch i ni neu unrhyw drydydd parti.

(d) Rhaid i'ch cynadleddwyr barchu a chydymffurfio ag unrhyw reolau neu reoliadau a ddatgenir gennym ni mewn perthynas â defnydd o'r man(nau) cwrdd, gan gynnwys heb gyfyngiad mewn perthynas â gofynion iechyd a diogelwch a thrwyddedu'r fangre lle lleolir y man(nau) cwrdd.

(e) Rhaid i'ch cynadleddwyr adael y man(nau) cwrdd ar yr adeg y cytunwyd arni, neu fel arall byddwch chi'n destun costau ychwanegol rhesymol y mae'n rhaid eu talu cyn ymadael.

(f) Ar unrhyw adeg, mae hawl gennym ni eithrio unrhyw gynadleddwr o'r digwyddiad neu o'r fangre sy'n peri niwsans annerbyniol neu'n aflonyddu ar gynadleddwyr eraill neu bobl eraill ar ein mangre, yn ein barn resymol ni.

(g) Rhaid i chi beidio â hysbysebu, marchnata neu gynnig y man cwrdd mewn unrhyw ffordd arall i'w werthu naill ai ar ei ben ei hun neu fel rhan o gynnig cyfunol. Byddwn yn gwrthod anrhydeddu unrhyw archebion a wneir yn y ffordd hon ac nid ydym yn derbyn atebolrwydd am wneud hynny.

9. Os byddwch chi'n torri unrhyw delerau'r contract, mae Prifysgol Abertawe yn cadw'r hawl i

- (i) ganslo eich archeb yn syth ac (os yn berthnasol) ofyn i chi adael y manau cwrdd;
- (ii) cadw'r holl symiau a dalwyd gennych chi a/newid swm llawn eich archeb; a/neu
- (iii) wrthod archebion yn y dyfodol gennych chi/neu wrthod mynediad i chi i lety ym Mhrifysgol Abertawe.

## 10. Atebolrwydd

10.1 Ni fyddwn yn atebol am unrhyw hawliad, colled neu ddifrod a wneir gennych chi o ganlyniad i'n methiant ni i ddarparu'r man(nau) cwrdd a/neu wasanaethau atodol oherwydd digwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth resymol ni.

10.2 I'r eithaf a ganiateir yn ôl y gyfraith, rydym ni'n eithrio'r canlynol yn ffurfiol:

- (a) Yr holl amodau, gwarantiadau neu delerau eraill (ffurfiol neu awgrymedig) a allai fel arall gael ei awgrymu gan ddeddfau, y gyfraith gyffredin neu'r gyfraith ecwiti; ac
- (b) atebolrwydd am golled neu ddifrod uniongyrchol, anuniongyrchol a/neu ganlyniadol, boed fel contract, camwedd (gan gynnwys esgeulustod), torri

dyletswydd statudol, neu fel arall, hyd yn oed os oedd yn rhagweladwy, a wnaed i unrhyw berson mewn cysylltiad ag unrhyw gontract neu ar gyfer defnyddio ein manau neu gyfleusterau cwrdd, gan gynnwys, heb gyfyngiad, atebolrwydd dros:

- I'r graddau eithaf a ganiateir yn ôl y gyfraith, ein hatebolrwydd mwyaf i chi mewn perthynas ag unrhyw archeb fydd y swm a dalwyd mewn perthynas ag archeb o'r fath.

- Nid yw'r telerau defnyddio hyn yn effeithio ar ein hatebolrwydd am farwolaeth neu niwed personol a geir o ganlyniad i'n hesgeulustod ni, am dwyll neu gamgynrychiolaeth dwyllodrus neu am unrhyw atebolrwydd arall na ellir ei eithrio na'i gyfyngu o dan y gyfraith berthnasol.

## 11. (Cyfyngu Atebolrwydd)

- 11.1 Nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd o gwbl am golled neu ddifrod o ran unrhyw eiddo sy'n cael ei adael yn ein hadeiladau neu ar ein tiroedd, ac nid yw'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb am anaf personol i gynadleddwyr, ymwelwyr, neu westeion ar safleoedd y Brifysgol oni bai yr achosir yr anaf gan weithredoedd, neu ddiffyg gweithredoedd, y Brifysgol.
- 11.2 Bydd y cleient yn atebol am unrhyw ddifrod a achosir i eiddo neu diroedd y Brifysgol gan eu cynrychiolwyr, eu hasiantau, neu eu staff, a byddant yn ad-dalu i'r Brifysgol ar gais unrhyw gostau a gafwyd o ganlyniad i'r fath ddifrod, costau, neu golled.
- 11.3 Bydd y cleient yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ddarparwr gwasanaeth a gyflogir ganddo yn cydymffurfio â rheolau a rheoliadau'r Brifysgol ac unrhyw ofynion statudol perthnasol.
- 11.4 Ni fydd y Brifysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gerbydau sydd wedi'u parcio ar diroedd y Brifysgol y mae'r perchennog yn gyfrifol amdanynt.
- 11.5 Byddwch yn indemnio'r Brifysgol yn erbyn yr holl atebolrwydd, costau, treuliau, difrod a cholledion (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i golledion uniongyrchol, anuniongyrchol neu ganlyniadol sy'n cynnwys costau cyfreithiol a chostau a threuliau proffesiynol rhesymol eraill) a ddioddefir neu a geir gennym ni sy'n deillio o neu sy'n gysylltiedig â'r canlynol:
- Unrhyw hawl a wneir yn ein herbyn ni am dorri gwirioneddol neu honedig hawliau eiddo deallusol trydydd parti sy'n deillio o neu sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad;
  - Defnyddio cyfleusterau rhwydwaith TG y Brifysgol gan bobl sy'n cael mynediad at y cyfleusterau hynny o ganlyniad i'ch gweithredoedd neu'ch hepgoriadau chi neu eich cynadleddwyr; ac
  - Unrhyw honiad a wneir yn ein herbyn ni o ganlyniad i dorri telerau cytundeb gennych chi neu o ganlyniad i'ch gweithredoedd neu'ch hepgoriadau chi neu eich cynadleddwyr;

## 12. Cysylltu â ni

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch chi, neu os oes gennych chi gwestiynau neu gwynion ynghylch unrhyw archeb, e-bostiwch: [events@abertawe.ac.uk](mailto:events@abertawe.ac.uk) neu ffoniwch 01792 295665.

## 13. Cyffredinol

13.1 Ni ellir gwerthu neu drosglwyddo mewn unrhyw ffordd unrhyw archeb, dan unrhyw amgylchiadau i drydydd parti.

13.2 Ni fydd unrhyw addasiad i'r cytundeb hwn yn gyfrwymol oni bai fod cytundeb ysgrifenedig rhyngoch chi a ni.

13.3 Rhaid bod unrhyw ildiad gennym ni o dorri darpariaeth yn y cytundeb hwn gennych chi yn ysgrifenedig ac ni chaiff ei ystyried i fod yn ildiad mewn perthynas ag unrhyw doriad dilynol neu arall.

13.4 Nid yw'r cytundeb yn creu unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 na ellir eu gorfodi gan unrhyw berson nad yw'n rhan ohono ac ni all yr un parti nad yw'n rhan o'r contract orfodi unrhyw un o'i delerau.

13.5 Mae'r contract yn cynnwys y ddealltwriaeth gyfan rhyngoch chi a ni sy'n disodli pob cytundeb blaenorol. Mae pob un ohonom yn cadarnhau nad ydym ni wedi ein darbwylllo i ymrwymo i'r contract gan ddibynnu ar unrhyw gynrychiolaeth neu warant ac eithrio'r rhai hynny sydd wedi'u cynnwys neu y cyfeirir atynt yn y contract, ar yr amod nad oes unrhyw beth yn y contract sy'n cael ei ystyried i fod yn atebolrwydd y naill parti neu'r llall am gamgynrychiolaeth dwyllodrus.

13.6 Nid oes unrhyw beth yn y telerau gwerthu hyn neu unrhyw gontract lle bwriedir cyfyngu ar eich hawliau statudol chi. Os bydd gwrthdaro rhwng y telerau gwerthu hyn neu unrhyw gontract a'ch hawliau statudol, bydd eich hawliau statudol chi'n cael blaenoriaeth.

13.7 Os ystyrir bod unrhyw un o'r telerau gwerthu hyn neu unrhyw gontract yn annilys, yn anghyfreithlon neu am unrhyw reswm yn arorfodadwy, caiff y rhan honno ei dileu ac ni fydd yn effeithio ar ddilysrwydd a gorfodadwyedd y rhannau sy'n weddill. Ni chaiff unrhyw fethiant gennym ni i orfodi ein hawliau neu ein rhwymedïau o dan y telerau gwerthu hyn, o dan unrhyw gontract neu fel arall ei ystyried i fod yn ildiad gennym ni o'r hawliau neu'r rhwymedïau hynny neu rai eraill.

13.8 Byddwn ni a'r bobl neu'r cwmni sy'n gwneud yr archeb yn gwarantu y byddwn yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol â gofynion Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU ac unrhyw gyfreithiau, rheoliadau a deddfwriaeth eilaidd gweithredu cenedlaethol, fel a ddiwygiwyd neu a ddiweddarwyd o bryd i'w gilydd yn y DU.

13.9 Caiff unrhyw wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi i ni ei storio a'i defnyddio gan y Brifysgol yn unig at ddibenion y cytundeb hwn, ac ym mhob achos gan gydymffurfio ag unrhyw bolisi preifatrwydd rydym ni'n ei anfon atoch chi.

13.10 Mae'r telerau gwerthu hyn ac unrhyw gontract, eu cynnwys a'u llunio (ac unrhyw wrthdaro neu hawliadau nad ydynt yn berthnasol i'r contract) yn cael eu rheoli gan gyfreithiau Lloegr, a'u dehongli yn unol â hynny. Rydym ni, y ddau barti, yn cytuno y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth neilltuedig dros unrhyw hawl sy'n codi o, neu sy'n gysylltiedig ag, unrhyw gontract a/neu eich defnydd chi o fannau cwrdd Prifysgol Abertawe.